**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion y cyfarfod misol yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan ar y 3ydd o Hydref 2024 am 7:30 yr hwyr.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), Clifford Williams, Enid Egginton, John Jones (Garndolbenmaen) Huw Pritchard (Pentrefelin) Megan Lloyd Williams, John Till (Golan) Edward Evans, Richard Parry (Bryncir) Iddon Edwards (Penmorfa) Gwilym Evans (Prenteg) Cynghorydd Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Michael Jones (Garndolbenmaen) Jess Williams, Gwenno Emlyn Hughes (Penmorfa), Raymond Jones (Pentrefelin) Cynghorydd June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan buddiant: | Neb |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion | HP yn cynnig a JJ yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion | Pont y Traeth , Prenteg - GE wedi cysylltu gyda Phriffyrdd Dwyfor eto i gael y rhesymeg dros osod yr arwydd "stop" ar y ffordd wrth y groesfan rheilffordd. Dal heb dderbyn ateb. GE i ddilyn y mater yma i fyny.<br><br>Mynwent Bethel – bu i'r Clerc roi darn yn y Ffynnon mis diwethaf i ddweud bod yna gerrig wedi disgyn ym Mynwent Bethel. Heb dderbyn ymateb hyd yma.<br><br>Draen Tyrpeg Uchaf - Ymateb gan Briffyrdd Dwyfor i ddweud ei fod ar raglen waith y gweithlu.<br><br>Coeden Bwlch y Moch – Archwiliwr am fynd allan i gael golwg<br><br>Ffordd Pont Faen – Gwaith o gau'r tyllau wedi'i raglennu.<br><br>Draen Ffynnon Beuno – Archwiliwr am fynd allan i gael golwg<br><br>Beudy Wen, Cwmystradllyn – Archwiliwr wedi siarad gyda GE am y mater yma.<br><br>Safle Bws Bryncir – Clerc wedi cysylltu hefo Cludiant Cyhoeddus a'r Adran Gefnffyrdd. Adran Gludiant am ofyn i Ymgynghoriaeth Gwynedd i edrych os oes lleoliad arall posib ar gyfer y safle Bws. Adran Gefnffyrdd am gael gair gyda'r tirfeddiannwr i weld os oes posib torri'r gwrych. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Shelter Bws Garndolbenmaen – Bydd y shelter bws yn cael ei drwsio ar ddydd Mercher y 9fed o Hydref.<br><br>Pont Rheilffordd Pentrefelin – Dim diweddariad pellach gan yr Uned Draffig. Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi sylwi bod gwrych wedi tyfu dros yr arwydd ac nad oes modd ei weld. Clerc i gysylltu gyda Chyngor Tref Criccieth a Chyngor Gwynedd. |
| 7. | Mynwentydd | Cytundeb Veolia<br><br>Cynigwyd gan GE ein bod yn rhoi rhybudd i Veolia rŵan na fyddwn yn adnewyddu ein cytundeb yn awtomatig ar y 17/10/2025. Pawb yn gytûn.<br><br>Mân Waith Mynwent Bethel<br><br>JJ a JT i ymweld â'r fynwent a chreu rhestr waith i'r Clerc. Clerc wedyn i holi am brisiau gan dri chontractwr gwahanol.<br><br>Cerrig wedi disgyn - Rhestrwyd y beddi sydd wedi disgyn. Beddi i gyd yn bobl oedd wedi ymadael 60 a mwy o flynyddoedd yn ôl. Doedd neb yn ymwybodol o deuluoedd a phobl fyddai'n gyfrifol amdanynt. Gwnaethpwyd cynnig gan JT ein bod yn rhoi'r gwaith o osod y cerrig yn fflat ar y beddi i mewn ym manylion y mân waith sydd ei angen. JJ yn eilio.<br><br>Ffordd Mynwent Prenteg<br><br>GE, RW a EE (Bryncir) wedi ymweld â'r fynwent. Nid oeddent yn gweld bod yna broblem gyda chyflwr y ffordd.<br><br>Mynwent Penmorfa<br><br>Adroddwyd bod yna bostyn derbyn â giât i lawr. Clerc i adrodd am hyn i'r Eglwys. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus | Llwybr y Lôn Goed ger Hendre Cennin<br><br>Adroddwyd fod yna goed helyg wedi tyfu ar draws y llwybr ac angen eu torri. Clerc i gysylltu ag Idris yn y lle cyntaf.<br><br>Capel Horeb i Goed Aberdunant |

| | | |
|---|---|---|
| | | Angen arwydd i gyfeirio cerddwyr ar ôl y grisiau. Nid yw'n glir pa ffordd mae'r llwybr yn mynd.<br><br><u>Llwybr Angorfa i Lôn Las</u><br><br>Adroddodd y contractwr fod yna ganghennau yn tyfu dros y llwybr. JJ am fynd i gael golwg.<br><br><u>Llwybr Craig y Garn</u><br><br>Adroddwyd bod yna gamfeydd ar y llwybr yma angen sylw. Clerc i adrodd am rain. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi | <u>Penmorfa</u><br><br>Dim i'w adrodd<br><br><u>Prenteg</u><br><br>Mae coeden i lawr ar ffordd Aberglaslyn. Mae yna arwyddion i ddweud bod y ffordd ar gau. Nid yw'n glir ble mae'r goeden wedi disgyn felly yn creu dryswch i bobl sydd yn byw ar hyd y ffordd neu sydd yn gweithio yn yr ardal. Clerc i gysylltu gyda Phriffyrdd Dwyfor i ofyn a fyddai'n bosib iddynt roi arwyddion yn nodi pellter y rhwystr pan maent yn cau ffyrdd,<br><br><u>Pentrefelin</u><br><br>Adroddwyd fod yr ynys groesi ger y Ganolfan yn beryg am nad oes posib ei weld yn y tywyllwch. Mae'r ddau adlewyrchydd yn fudr ac felly nid ydynt yn goleuo.<br><br>Soniwyd fod y Cyngor wedi cychwyn ar y gwaith o lenwi tyllau ar ffordd Pont Faen.<br><br>Rhododendrons dal heb eu torri.<br><br><u>Golan</u><br><br>Mae'r ffordd ger y blwch post yn hynod fudr. Clerc i gysylltu gyda Phriffyrdd Dwyfor i ofyn i gael glanhau'r ffordd.<br><br>**Gadawodd IE y cyfarfod.<br><br><u>Garndolbenmaen</u> |

| | | |
|---|---|---|
| | | Adroddwyd bod Gors Graianog angen sylw. Clerc i gysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Bu i'r cyn clerc gysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru sawl blwyddyn yn ôl a dywedwyd bryd hynny y byddai Gors Gyfelog a Chors Graianog yn cael sylw, maent i weld wedi rhoi sylw i Gors Gyfelog ond ddim i Graianog.<br><br><u>Swyddfa Bost</u><br><br>Adroddodd SCH nad yw'r fan bost wedi bod yng Ngarndolbenmaen na Bryncir ers rhyw bedair wythnos bellach oherwydd nam ar y fan. Mae SCH wedi cwyno ac wedi gofyn pam nad oes ganddynt fan sbâr ar gyfer achlysuron fel yma. Gobeithio y bydd y fan yn ôl wythnos nesaf.<br><br><u>Bryncir</u><br><br>Dim i'w adrodd |
| 10. | Gohebiaeth | Dim |
| 11. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Unllais Cymru – Recriwtio, Sefydlu a Chadw Clercod<br>b. Unllais Cymru – Hyfforddiant Medi – Rhagfyr<br>c. Adam Dobson – Ffordd Prenteg i Aberdunant<br>ch. Canolfan Pentrefelin - Llythyr o ddiolch - Rhodd Cylch Trafod yr Alltwen - Clerc i ysgrifennu i Gyngor Gwynedd i gefnogi cais Adam Dobson a hefyd i ofyn am gyfarfod safle. |
| 12. | Cynllunio | **Rhestrau:** 2/9, 9/9, 16/9, 23/9<br><br>**Ceisiadau Cynllunio:**<br><br>**Rhif Cais:** C24/0700/36/CC<br>**Lleoliad:** Tan Y Graig, Pentrefelin, Criccieth, Gwynedd, LL52 0PT<br>**Bwriad:** Gwaith i goed o dan Orchymyn Gwarchod Coed. Dim gwrthwynebiad.<br><br>**Rhif Cais:** NP2/16/417B<br>**Lleoliad:** Gyfyng, Cwm Pennant, Garndolbenmaen. LL51 9AX<br>**Bwriad:** Newid defnydd o dir amaethyddol i gwrtil domestig (Cais ôl-weithredol). Dim gwrthwynebiad.<br><br><u>Ychwanegwyd - </u>Roedd y cais yma wedi mynd at Gyngor Tref Porthmadog am sylw yn hytrach nag atom ni yma i Gyngor Dolbenmaen. Clerc i adrodd am hyn i Gyngor Gwynedd<br><br>**Rhif Cais:** C24/0736/44/LL |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Lleoliad:** Caffi Bwlch Y Moch, Bwlch Y Moch Cafe, Bwlch Y Moch Ffordd Prenteg, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9SN<br>**Bwriad:** Bwriad ar gyfer gosod pedwar gorsaf gwefru cerbydau trydan cyflym ychwanegol ac offer ategol ynghyd â symud y piler bwydo presennol a'i ddisodli gan giosg wedi'i diweddaru i gartrefu offer mesur ar gyfer gwefrwyr ychwanegol ar y safle. Dim gwrthwynebiad. |
| 13. | Materion Ariannol | **Ceisiadau am arian:** Neb<br><br>**Monitro'r gyllideb** : Dim gorwariant<br><br>**Biliau i'w talu:**<br><br>Cyflog Clerc = £311.58<br>Ffôn = £ 15.00<br>Cyfrifiadur = £20.00<br>HMRC = £77.80<br>Veolia = £31.06<br>HSBC = £8.00<br>Madog Gardencare = £220.00<br><br>**Derbyniadau:**<br><br>Llog: £180.07<br><br>**Balansau Cyfrifon Banc:**<br><br>Cadw: £42,659.45<br>Cyfredol: £3,533.50 |
| 14. | Gohebiaeth i'r Wasg / Wefan | Shelter Bws Garndolbenmaen<br>Llwybr Lôn Goed<br>Cyfyngiad Cyflymder Prenteg i Barc Gwyliau Aberdunant |